



# Hysbysiad amrywio a chyfuno gyda nodyn rhagarweiniol

Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010

---

Mr Huw Griffith Thomas a Mr David  
Vaughn Thomas

Tir Yn  
Meillionydd Bach  
Rhoshirwaun  
Pwllhelli  
Gwynedd  
LL53 8HY

Rhif y cais i amrywio  
GWN1190/V001

Rhif y drwydded  
GWN1190

**Tir Yn Meillionydd Bach**  
**Rhif y drwydded GWN1190**

**Nodyn rhagarweiniol**

**Nid yw'r nodyn rhagarweiniol hwn yn rhan o'r hysbysiad.**

Diben yr hysbysiad canlynol yw hysbysu bod trwydded amgylcheddol wedi ei hamrywio a'i chyfuno.

Yn dilyn adolygiad o'r drwydded bresennol, mae'r hysbysiad amrywio hwn yn newid yr amodau er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Nid yw'r gweithgareddau gwaredu yn newid o gwbl. Dylid cadw cofnodion o union fan pob achos o ollwng sylwedd yn y safle gwaredu cyffredinol.

Mae'r atodlenni yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r drwydded.

Mae'r cofnod o statws trwydded yn egluro'r hanes trwyddedu, gan gynnwys unrhyw newidiadau i gyfeirnod y drwydded. Nid yw wedi'i ôl-ddyddio cyn 6 Ebrill 2010.

Cofnod o statws y drwydded		
Disgrifiad	Dyddiad	Sylwadau
Daethpwyd i benderfyniad ynghylch yr amrywiad GWN1190	03/02/12	Diweddariad GWDD EPR. Cyflwynwyd trwydded wedi ei hamrywio a'i chyfuno mewn fformat amodau modern.

Diwedd y nodyn rhagarweiniol

# Hysbysiad amrywio a chyfuno

Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010

Wrth arfer ei phwerau dan reoliad 20 Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn amrywio ac yn cyfuno

**Trwydded rhif  
GWN1190**

**a gyflwynwyd i**

**Mr Huw Griffith Thomas** ("y gweithredwr") **Mr David Vaughn Thomas** ("y gweithredwr")  
of of

**Meillionydd Bach  
Rhoshirwaun  
Pwllhelli  
Gwynedd  
LL53 8HY**

**Stalal  
Rhoshirwaun  
Pwllhelli  
Gwynedd  
LL53 8HU**

i weithredu cyfleuster a reoleiddir yn

**Tir Yn  
Meillionydd Bach  
Rhoshirwaun  
Pwllhelli  
Gwynedd  
LL53 8HY**

i'r graddau a eglurir yn yr atodlenni.

Bydd yr hysbysiad yn dod i rym o 03/02/2012 ymlaen.

Enw	Dyddiad
<b>Christopher Hall</b>	<b>03/02/2012</b>

Awdurdodwyd ar ran Asiantaeth yr Amgylchedd

### **Atodlen 1**

Mae pob un o'r amodau wedi cael eu hamrywio gan y drwydded a gyfunwyd yn dilyn amrywiad a ysgogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

### **Atodlen 2 – y drwydded a gyfunwyd**

Caiff y drwydded a gyfunwyd ei chyflwyno ar ffurf dogfen ar wahân.

# Trwydded

Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010

## Trwydded rhif GWN1190

Dyma'r drwydded a gyfunwyd y cyfeiriwyd ati yn yr hysbysiad amrywio a chyfuno ar gyfer cais GWN1190/V001 sy'n awdurdodi

**Mr Huw Griffith Thomas** ("y gweithredwr") **Mr David Vaughn Thomas** ("y gweithredwr")

of

of

**Meillionydd Bach**  
**Rhoshirwaun**  
**Pwllhelli**  
**Gwynedd**  
**LL53 8HY**

**Stalal**  
**Rhoshirwaun**  
**Pwllhelli**  
**Gwynedd**  
**LL53 8HU**

i weithredu gweithgarwch dŵr daear yn

**Tir Yn**  
**Meillionydd Bach**  
**Rhoshirwaun**  
**Pwllhelli**  
**Gwynedd**  
**LL53 8HY**

i'r graddau a awdurdodwyd gan y drwydded hon ac yn unol ag amodau'r drwydded.

Enw	Dyddiad
<b>Christopher Hall</b>	<b>03/02/2012</b>

Awdurdodwyd ar ran Asiantaeth yr Amgylchedd

# Amodau

## 1 Rheoli

### 1.1 Gwaith rheoli cyffredinol

1.1.1 Dylai'r gweithredwr reoli a gweithredu'r gweithgareddau:

- (a) yn unol â system reoli ysgrifenedig sy'n nodi ac sy'n lleihau'r risg o lygredd, gan gynnwys y risgiau sy'n deillio o weithrediadau, gwaith cynnal a chadw, damweiniau, digwyddiadau ac achosion o fethu â chydymffurfio, a'r risgiau y tynnir sylw'r gweithredwr atynt o ganlyniad i gŵynion; a
- (b) gan ddefnyddio adnoddau a phobl sy'n ddigon cymwys.

1.1.2 Dylid cadw cofnodion sy'n dangos y cydymffurfir ag amod 1.1.1.

1.1.3 Os oes gan unrhyw unigolyn ddyletswyddau y mae'r materion a nodir yn y drwydded hon yn effeithio arnynt, neu y gallai'r materion a nodir effeithio arnynt, dylai'r unigolyn hwnnw gael mynediad hwylus i gopi o'r drwydded, a gedwir yn y fan neu wrth ymyl y fan lle caiff y dyletswyddau hynny eu cyflawni.

## 2 Gweithrediadau

### 2.1 Gweithgareddau a ganiateir

2.1.1 Dim ond y gweithgareddau a nodir yn Atodlen 1 Tabl S1.1 (y "gweithgareddau") y caniateir i'r gweithredwr eu cyflawni.

### 2.2 Y safle

2.2.1 Ni ddylai'r gweithgareddau ymestyn y tu hwnt i'r safle, sef y tir y gwelir ymyl gwyrdd o'i amgylch ar y cynllun safle a geir yn Atodlen 7 y drwydded hon, sydd yng Nghyfeirnod(au) Grid Cenedlaethol **SH 21927 29101**.

### 2.3 Technegau gweithredu

2.3.1 Bydd y sylwedd yn cael ei ollwng drwy ei wasgaru ar ardal o dir â gorchudd sefydlog o lystyfiant y mae ei werth o ran bywyd gwyllt yn isel. Ni ddylai'r ardal o dir gynnwys gwrychoedd, coetiroedd na dolydd blodau gwyllt, na thir sy'n foel am ei fod yn rhan o batrwm cylchdroi cnydau.

2.3.2 Ni ddylid gollwng y sylwedd yn y mannau canlynol:

- (a) o fewn 10 metr i'r cwrs dŵr agosaf (sy'n cynnwys ffosydd a draenau tir agored a allai fod yn sych am ran o'r flwyddyn) neu o fewn 30 metr i afon a ddynodwyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu'n Safle Ewropeaidd;

- (b) o fewn 50 metr i unrhyw ffynnon, tarddiad neu ddyfrdwl, ni waeth sut y cânt eu defnyddio ar hyn o bryd;
  - (c) o fewn 500 metr i unrhyw ffynnon, tarddiad neu ddyfrdwl os bwriedir i'r dŵr gael ei yfed gan bobl;
  - (ch) o fewn 25 metr i lyncdwl a nodwyd.
- 2.3.3 Ni ddylid gollwng y sylwedd o fewn 2 metr i unrhyw lwybr cerdded neu derfyn cae.
- 2.3.4 Ni ddylid gollwng y sylwedd ar y tir canlynol:
- (a) tir lle gosodwyd draeniau dan yr wyneb neu ddraeniau tyrchod yn ystod y 12 mis blaenorol cyn unrhyw weithred gollwng, neu dir sydd wedi cracio'r holl ffordd i lawr i'r ddraen neu unrhyw ddeunydd ôl-lenwi;
  - (b) tir ar lethr sy'n fwy nag 11 gradd (oddeutu 1:5);
  - (c) tir sydd wedi rhewi'n galed neu sydd wedi'i orchuddio gan eira;
  - (ch) tir sy'n tueddu i gael ei orlifo;
  - (d) tir sydd wedi'i gywasgu'n ddifrifol neu sy'n llawn dŵr.
- 2.3.5 Ni ddylai dip defaid a ddefnyddiwyd / sy'n wastraff gael ei ollwng ar dir lle mae cnydau'n cael eu tyfu ar hyn o bryd i'w bwyta gan bobl.
- 2.3.6 Dylai'r offer a / neu'r dulliau gollwng gael eu cynllunio a'u defnyddio yn y fath fodd fel y bydd gofynion Amodau 2.3.7 a 2.3.8 neu 2.3.9 yn cael eu bodloni.

## Symiau a chyfraddau

- 2.3.7 Wrth ollwng dip defaid a ddefnyddiwyd / sy'n wastraff (sydd o gryfder gweithio) nad yw wedi'i wanhau i'w wneud yn fwy diogel i'w wasgaru, dylid sicrhau na chaiff mwy na **3** metr ciwbig y flwyddyn ohono ei ollwng ar y tir a nodir yn Atodlen 7, a dylai'r modd y caiff ei wasgaru fodloni gofynion amod 2.3.8 neu 2.3.9.
- 2.3.8 Wrth ollwng dip defaid a ddefnyddiwyd / sy'n wastraff, sydd o gryfder gweithio, dylid sicrhau na chaiff mwy na **1.5** metr ciwbig y dydd ohono ei wasgaru, a rhaid iddo gael ei wasgaru'n gyfartal ar o leiaf **0.3** hectar o'r tir a nodir yn Atodlen 7.
- 2.3.9 Wrth ollwng dip defaid a ddefnyddiwyd / sy'n wastraff, sydd o gryfder gweithio, a wanhawyd ymhellach ar sail cymhareb o **1** rhan o ddip i **3** rhan o slyri neu ddŵr, dylid sicrhau na chaiff mwy na **6** metr ciwbig y dydd ohono ei wasgaru, a rhaid iddo gael ei wasgaru'n gyfartal ar o leiaf **0.3** hectar o'r tir a nodir yn Atodlen 7.

## Cyfnod gollwng

- 2.3.10 Dim ond rhwng 01 Ebrill a 31 Mawrth bob blwyddyn, gan gynnwys y dyddiadau hynny, y dylid gollwng dip defaid a ddefnyddiwyd / sy'n wastraff.

- 2.3.11 Ni ddylai dip defaid a ddefnyddiwyd / sy'n wastraff, a ollyngir ar yr un ardal o dir o fewn y safle gwaredu cyffredinol a nodir yn Atodlen 7, gael ei ollwng yn amlach nag unwaith y flwyddyn. Gellir cael hyd at 2 achos y flwyddyn o ollwng dip defaid a ddefnyddiwyd / sy'n wastraff, ond rhaid cylchdroi'r ardal o dir a ddefnyddir o fewn y safle gwaredu cyffredinol,, er mwyn bodloni gofynion amod 2.3.8.

## 3 Allyriadau a gwaith monitro

### 3.1 Allyriadau sylweddau na reolir gan derfynau allyriadau

- 3.1.1 Ni ddylai allyriadau sylweddau na reolir gan derfynau allyriadau (ac eithrio arogleuon) arwain at lygredd. Nid ystyrir bod gweithredwr wedi torri'r amod hwn os bydd camau priodol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhai a nodwyd mewn unrhyw gynllun cymeradwy ar gyfer rheoli allyriadau, wedi'u cymryd i atal yr allyriadau dan sylw, neu'u lleihau os nad yw'n ymarferol eu hatal.
- 3.1.2 Dylai'r gweithredwr:
- (a) gyflwyno cynllun rheoli allyriadau i'w gymeradwyo gan Asiantaeth yr Amgylchedd o fewn y cyfnod a nodwyd, os caiff ei hysbysu gan Asiantaeth yr Amgylchedd bod y gweithgareddau yn arwain at lygredd;
  - (b) gweithredu'r cynllun cymeradwy ar gyfer rheoli allyriadau, o'r dyddiad cymeradwyo ymlaen, oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
- 3.1.3 Dylai pob hylif sydd mewn cynhwysydd, a allai achosi llygredd pe bai'n gollwng i mewn i ddŵr neu dir, gael ei roi mewn ail gynhwysydd, oni bai bod y gweithredwr wedi cymryd camau priodol eraill i atal yr hylif rhag gollwng o'r prif gynhwysydd, neu wedi cymryd camau priodol eraill i leihau'r risg y gallai hynny ddigwydd, os nad yw'n ymarferol ei atal.
- 3.1.4 Dylid cymryd camau priodol i atal sylweddau peryglus rhag mynd i mewn i ddŵr daear, drwy osgoi gadael i hynny ddigwydd a thrwy osgoi unrhyw gynnydd sylweddol yn eu crynodiad mewn dŵr daear.

## 4 Gwybodaeth

### 4.1 Cofnodion

- 4.1.1 Dylai'r holl gofnodion y mae'n ofynnol eu llunio dan y drwydded hon fodloni'r gofynion a ganlyn:
- (a) dylent fod yn ddarllenadwy;
  - (b) dylid eu llunio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;
  - (c) os cânt eu diwygio, dylid eu diwygio yn y fath fodd fel bod y cofnodion gwreiddiol ac unrhyw ddiwygiadau dilynol yn parhau'n ddarllenadwy, neu bod modd eu hadfer; ac
  - (ch) dylid eu cadw, oni chytunir yn ysgrifenedig fel arall gan Asiantaeth yr Amgylchedd, am o leiaf 6 blynedd wedi'r dyddiad y cawsant eu llunio.

- 4.1.2 Dylai'r gweithredwr gadw ar y safle yr holl gofnodion, yr holl gynlluniau, a'r system reoli y mae'n ofynnol ei chynnal dan y drwydded hon, oni chytunir yn ysgrifenedig fel arall gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
- 4.1.3 Dylai'r cofnodion ynghylch gollwng dip defaid sy'n wastraff gynnwys y manylion canlynol:
- (a) enw, cyfeiriad a Chyfeirnod Grid Cenedlaethol y safle y daeth y dip defaid a ddefnyddiwyd / sy'n wastraff ohono;
  - (b) y symiau dyddiol o ddip defaid a ddefnyddiwyd / sy'n wastraff, nad yw wedi'i wanhau, a ollyngwyd;
  - (c) y cyfraddau gollwng;
  - (ch) y lleoliad a'r ardal lle gollyngwyd y dip;
  - (d) natur y dip a ddefnyddiwyd (bydd enw'r awdurdodiad marchnata yn ddigon);
  - (dd) unrhyw ddeunyddiau a ychwanegwyd i wanhau neu drin y dip defaid a ddefnyddiwyd / sy'n wastraff, gan gynnwys dŵr neu slyri;
  - (e) os ceir mwy nag un achos o ollwng dip, manylion sy'n dangos y cydymffurfir â'r maen prawf sy'n nodi na chaniateir gollwng y dip fwy nag unwaith y flwyddyn ar bob ardal ddynodedig o dir.

## 4.2 Cyflwyno adroddiadau

- 4.2.1 Dylai'r gweithredwr anfon pob adroddiad a hysbysiad sy'n ofynnol dan y drwydded i Asiantaeth yr Amgylchedd, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd yn ysgrifenedig gan yr Asiantaeth.

## 4.3 Hysbysiadau

- 4.3.1 Dylid hysbysu Asiantaeth yr Amgylchedd ar unwaith os sylwir ar unrhyw un o'r canlynol:
- (a) unrhyw achos lle mae offer neu dechnegau wedi camweithio neu wedi methu, unrhyw ddamwain, neu unrhyw allyriad sylwedd na reolir gan derfyn allyriadau, sydd wedi arwain, sydd yn arwain neu a allai arwain at lygredd sylweddol;
  - (b) unrhyw achos o fynd y tu hwnt i derfyn a nodir yn y drwydded; neu
  - (c) unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd.
- 4.3.2 Dylai unrhyw wybodaeth a ddarperir dan amod 4.3.1 gael ei chadarnhau drwy anfon y wybodaeth a restrir yn Atodlen 5 y drwydded hon, o fewn y cyfnod a nodir yn yr Atodlen honno.
- 4.3.3 Os yw Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gofyn yn ysgrifenedig i'r gweithredwr ei hysbysu pan fydd yn gwneud gwaith monitro a/neu hapsamplu, dylai'r gweithredwr hysbysu Asiantaeth yr Amgylchedd pan fwriedir i'r gwaith monitro a/neu hapsamplu perthnasol ddigwydd. Dylai'r gweithredwr ddarparu'r wybodaeth hon i Asiantaeth yr Amgylchedd o leiaf 14 diwrnod cyn y dyddiad y bwriedir gwneud y gwaith monitro.
- 4.3.4 Dylid hysbysu Asiantaeth yr Amgylchedd cyn pen 14 diwrnod os bydd unrhyw un o'r isod yn digwydd, oni bai bod rheolau'r Gyfnewidfa Stoc yn gwahardd datgelu'r wybodaeth honno:
- Os yw'r gweithredwr yn gwmni cofrestredig:

- (a) unrhyw newid yn enw masnachu, enw cofrestredig neu gyfeiriad swyddfa gofrestredig y gweithredwr; a
- (b) unrhyw gamau a gymerwyd sy'n galluogi'r gweithredwr i fynd i ddwylo gweinyddwyr, ymrwymo i drefniant gwirfoddol cwmni, neu ddod i ben.

Os yw'r gweithredwr yn gorff corfforaethol heblaw cwmni cofrestredig:

- (a) unrhyw newid yn enw neu gyfeiriad y gweithredwr; a
- (b) unrhyw gamau a gymerwyd i ddiddymu'r gweithredwr.

4.3.5 Os yw'r gweithredwr yn bwriadu newid natur neu swyddogaeth y gweithgareddau, neu'n bwriadu eu hystyngi, mewn unrhyw fodd a allai effeithio ar yr amgylchedd, ac nad yw'r newid yn destun cais fel arall am gymeradwyaeth dan y Rheoliadau neu'r drwydded hon:

- (a) dylid hysbysu Asiantaeth yr Amgylchedd o leiaf 14 diwrnod cyn gwneud y newid;  
a
- (b) dylai'r hysbysiad gynnwys disgrifiad o'r newid arfaethedig i'r dull gweithredu.

## 4.4 Dehongli

4.4.1 Yn y drwydded hon, dylai'r geiriau a'r ymadroddion a restrir yn Atodlen 6 olygu'r hyn a nodir yn yr Atodlen honno.

4.4.2 Yn y drwydded hon, yr hyn a olygir wrth gyfeirio at adroddiadau a hysbysiadau yw adroddiadau a hysbysiadau ysgrifenedig, oni chyfeirir at yr angen i hysbysu "ar unwaith". Os felly, gellir cyflwyno'r adroddiad neu'r hysbysiad dros y ffôn.

# Atodlen 1 – Gweithrediadau

Tabl S1.1 Gweithgareddau	
Disgrifiad o'r gweithgaredd	Terfynau'r gweithgaredd a nodwyd
Dylai'r sylwedd a ollyngir gynnwys dip defaid sy'n wastraff yn unig, a ddaeth o Meillionydd Bach ac a ddefnyddiwyd yn unol â'r awdurdodiad marchnata priodol a gyflwynwyd gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).	<p>Dim ond unwaith y flwyddyn y gellir gollwng dip defaid sy'n wastraff ar unrhyw un ardal o dir.</p> <p>Dylid cadw cofnodion o union fan pob achos o ollwng sylwedd yn y safle gwaredu cyffredinol.</p>

## **Atodlen 2 – Mathau o wastraff, deunyddiau crai a thanwydd**

Ni chaiff mathau o wastraff eu derbyn yn rhan o'r gweithgareddau a ganiateir, ac ni chyfyngir o gwbl ar ddeunyddiau crai neu danwydd dan yr Atodlen hon.

## **Atodlen 3 – Allyriadau a gwaith monitro**

Nid oes unrhyw derfynau allyriadau neu ofynion cysylltiedig o ran monitro.

## **Atodlen 4 – Cyflwyno adroddiadau**

Nid oes angen cyflwyno unrhyw adroddiadau dan yr Atodlen hon.

## Atodlen 5 - Hysbysiadau

Mae'r tudalennau hyn yn amlinellu'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r gweithredwr ei darparu.

Bydd yr unedau mesur a ddefnyddir mewn unrhyw wybodaeth a ddarperir dan ofynion Rhan A a B yn briodol i amgylchiadau'r allyriad. Lle bo hynny'n briodol, dylid cymharu'r allyriadau gwirioneddol â'r terfynau a awdurdodwyd ar gyfer allyriadau.

Os bernir bod unrhyw wybodaeth yn sensitif am resymau masnachol, dylid ei gwahanu oddi wrth y wybodaeth nad yw'n gyfrinachol, a dylid ei darparu ar ddalen ar wahân a'i chyflwyno gyda chais am gyfrinachedd am resymau masnachol dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol.

### Rhan A

Rhif y drwydded	
Enw'r gweithredwr	
Lleoliad y cyfleuster	
Amser a dyddiad sylwi ar y digwyddiad	

**(a) Y gofynion o ran hysbysu ynghylch unrhyw achos lle mae offer neu dechnegau wedi camweithio neu wedi methu, unrhyw ddamwain, neu unrhyw allyriad sylwedd na reolir gan derfyn allyriadau, sydd wedi arwain, sydd yn arwain neu a allai arwain at lygredd sylweddol**

**I'w hysbysu cyn pen 24 awr wedi i rywun sylwi ar y digwyddiad**

Dyddiad ac amser y digwyddiad	
Cyfeiriad at leoliad y digwyddiad, neu ddisgrifiad o'r lleoliad	
Disgrifiad o'r fan lle rhyddhawyd unrhyw sylwedd i'r amgylchedd	
Y sylwedd neu'r sylweddau a allai fod wedi cael eu rhyddhau	
Yr amcangyfrif gorau o faint o sylweddau a ryddhawyd, neu'r cyflymder y cawsant eu rhyddhau	
Y camau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i atal unrhyw allyriad	
Disgrifiad o'r ddamwain, neu'r achos o offer neu dechnegau'n methu	

**(b) Y gofynion o ran hysbysu ynghylch achos o fynd y tu hwnt i derfyn**

**I'w hysbysu cyn pen 24 awr wedi i rywun sylwi ar y digwyddiad, oni nodir fel arall isod**

Ffynhonnell / Cyfeirnod yr allyriad	
Paramedr(au)	
Terfyn	
Gwerth a fesurwyd ac ansicrwydd	

Dyddiad ac amser monitro	
Y camau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i atal yr allyriad	

Cyfnodau ar gyfer hysbysu ar ôl sylwi ar achos o fynd y tu hwnt i derfyn	
Paramedr	Cyfnod ar gyfer hysbysu

(c) Y gofynion o ran hysbysu ynghylch achos o sylwi ar effaith andwyol sylweddol ar yr amgylchedd	
l'w hysbysu cyn pen 24 awr wedi i rywun sylwi ar y digwyddiad	
Disgrifiad o'r fan lle sylwyd ar yr effaith ar yr amgylchedd	
Y sylwedd neu'r sylweddau y sylwyd arnynt	
Y crynodiadau o sylweddau y sylwyd arnynt	
Dyddiad monitro/samplu	

## Rhan B – l'w chyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol

Unrhyw wybodaeth fwy cywir am y materion y dylid hysbysu yn eu cylch dan Ran A	
Y camau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i atal y digwyddiad rhag digwydd eto	
Y camau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i gywiro neu gyfyngu neu atal unrhyw lygredd i'r amgylchedd, sydd wedi ei achosi neu a allai gael ei achosi gan yr allyriad	
Dyddiadau unrhyw allyriadau na chawsant eu hawdurdodi o'r cyfleuster yn ystod y 24 mis blaenorol	

<b>Enw*</b>	
<b>Swydd</b>	
<b>Llofnod</b>	
<b>Dyddiad</b>	

\* Awdurdodwyd i lofnodi ar ran y gweithredwr

## Atodlen 6 – Dehongli

“allyriadau i'r tir” - mae “allyriadau i'r tir” yn cynnwys allyriadau i ddŵr daear.

“allyriadau sylweddau na reolir gan derfynau allyriadau” - ystyr “allyriadau sylweddau na reolir gan derfynau allyriadau” yw allyriadau sylweddau i'r aer, y dŵr neu'r tir, sy'n deillio o'r gweithgareddau, naill ai o'r pwyntiau allyriadau a nodir yn Atodlen 3 neu o ffynonellau lleol neu wasgaredig, ac na reolir gan derfyn allyriadau.

“blwyddyn” - ystyr “blwyddyn” yw blwyddyn galendr sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr.

“cais” - ystyr “cais” yw'r cais am y drwydded hon, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir gan y gweithredwr yn rhan o'r cais, ac unrhyw ymateb i hysbysiad a gyflwynwyd dan Atodlen 5 y Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol.

“chwarter” - ystyr “chwarter” yw chwarter blwyddyn galendr sy'n cychwyn ar 1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf neu 1 Hydref.

“damwain” - ystyr “damwain” yw damwain a allai arwain at lygredd.

“draenio â draeniau tyrchod” - ystyr “draenio â draeniau tyrchod” yw draenio drwy gyfrwng system o dwneli neu lwybrau cul, sy'n eu cynnal eu hunain mewn pridd (yn yr un modd â thyllau tyrchod daear). Caiff y twneli eu creu gan offeryn a gaiff ei lusgo ar lefel fas y tu ôl i dractor ac a gynlluniwyd i ddraenio dŵr o bridd sy'n draenio'n wael.

“draenio dan yr wyneb” - ystyr “draenio dan yr wyneb” yw draenio tir drwy osod system o bibellau neu ddraeniau tyrchod mewn tir sy'n draenio'n wael (er enghraifft, cleiau) er mwyn cyfeirio dŵr trylifo uniongyrchol i ffwrdd ac atal y tir rhag bod yn llawn dŵr.

“dŵr daear” - ystyr “dŵr daear” yw unrhyw ddŵr sydd islaw wyneb y ddaear yn y gylchfa ddirlawnder ac sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â'r ddaear neu'r isbridd.


“Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol” - ystyr y “Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol” yw Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) OS 2010 Rhif 675, ac mae ystyr y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y drwydded hon ac a ddefnyddir hefyd yn y Rheoliadau yr un fath â'u hystyr yn y Rheoliadau.

“Safle Ewropeaidd” - ystyr “Safle Ewropeaidd” yw Ardal Cadwraeth Arbennig neu ymgeisydd am Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig yng Nghymru a Lloegr, o fewn ystyr Cyfarwydddeb 79/409/EEC y Cyngor ynghylch cadwraeth adar gwyllt a Chyfarwydddeb 92/43/EEC y Cyngor ynghylch cadwraeth cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt, a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Caiff safleoedd Ramsar a ddynodir yn rhyngwladol eu trin yn yr un modd â safleoedd Ewropeaidd fel mater o bolisi llywodraeth, ac at ddiben y drwydded hon cânt eu hystyried yn Safleoedd Ewropeaidd.

“SoDdGA” - ystyr “SoDdGA” yw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o fewn ystyr Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000).

“yn flynyddol” - ystyr “yn flynyddol” yw unwaith y flwyddyn.

## Atodlen 7 – Cynllun o'r safle



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Asiantaeth yr Amgylchedd, 100026380, 2012.

DIWEDD Y DRWYDDED